



Y BARTNERIAETH AWYR AGORED

PROFIAD • MWYNHAU • LLWYDDO • GYDA'N GILYDD

THE OUTDOOR PARTNERSHIP

EXPERIENCE • ENJOY • ACHIEVE • TOGETHER

2026

CYNLLUN IAITH GYMRAEG WELSH LANGUAGE SCHEME





Cynnwys

- 1 Cyflwyniad - **5**
- 2 Datganiad - **6**
- 3 Cynllunio a chyflwyno gwasanaethau - **7**
- 4 Cyfathrebu â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg - **9**
- 5 Delwedd gorfforaethol - **13**
- 6 Cyhoeddiadau - **14**
- 7 Datganiadau i'r wasg - **15**
- 8 Gwefannau a Chyfryngau Cymdeithasol - **16**
- 9 Gweithredu'r cynllun - **17**
- 10 Gweithredu a monitro - **19**
- 11 Hysbysebu'r cynllun a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd - **20**

Y Bartneriaeth Awyr Agored
The Outdoor Partnership

Cymeradwywyd y Cynllun Iaith
Gymraeg hwn gan
Gomisiynydd y Gymraeg ar 11/11/13.

This Language Scheme was
approved by
the Welsh Language Commissioner
on 11/11/13

Diwygiwyd y ddogfen ar
30/09/26
This document was revised on
30/09/26

Content

- 1 Introduction - **5**
- 2 Declaration - **6**
- 3 Planning and provision of services - **7**
- 4 Communicating with members of the public that speak Welsh - **9**
- 5 Corporate Image - **13**
- 6 Publications - **14**
- 7 Press releases - **15**
- 8 Websites and Social Media - **16**
- 9 Implementing the scheme - **17**
- 10 Operation and monitoring - **19**
- 11 Promoting the plan and raising public awareness - **20**





RHAGAIR

Er mwyn parchu dewisiadau iaith ein defnyddwyr gwasanaeth, mae'r Bartneriaeth Awyr Agored wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gynnal materion cyhoeddus yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.

Mae ein Cynllun Iaith a gymeradwywyd gan Gomisiynydd y Gymraeg, yn nodi sut y byddwn yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac mae ar gael i'w weld ar ein gwefan.

Mae'r cynllun gweithredu yn cael ei adolygu yn flynyddol gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

Mae demograffeg ieithyddol yng Nghymru yn amrywiol.

Dengys Cyfrifiad 2021 bod lefelau y Gymraeg lafar o fewn y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu yn amrywio o 6.2% i 64.4%. Dengys ymchwil gan y Bartneriaeth (Muskett, 2018) fod y nifer o siaradwyr Cymraeg a gyflogir yn y sector awyr agored yn isel.

Gan hynny mae tangynrychiolaeth yn y sector o ran gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn amrywio dros yr amrediad eang o wasanaethau sydd ar gael gyda'r canran mwyaf mewn swyddi cyflog isel a'r canran lleiaf mewn swyddi medrus.

Rydym yn cydnabod bod hwn yn rhwystr rhag cynyddu cyfranogiad pobl leol a hefyd yn pwysleisio methiant hanesyddol pob lleol i fanteisio'n economaidd o gyfleoedd o fewn y sector.

FOREWORD

To respect the language choices of our service users, the Outdoor Partnership has adopted the principle that in the conduct of public business in Wales, it will treat the Welsh and English languages on a basis of equality.

Our Welsh Language Scheme was endorsed by the Welsh Language Commissioner and we were the first third sector organisation in Wales to achieve this. It sets out how we will give effect to that principle when providing services to the public and is available to view on our website.


The Scheme's action plan is reviewed each year by the Board of Trustees.

There is substantial variation in the linguistic demography of Wales.

The 2021 Census shows that the level of spoken Welsh in the communities we serve varies from 6.2% to 64.4%. Research by the Partnership (Muskett, 2018) shows that the number of Welsh speakers employed by the outdoor sector in Wales is low. Hence the delivery of services in Welsh is under represented in the sector.

Welsh speaking is variable across the wide range of services available with highest percentage of Welsh speakers in low paid employment and lowest percentage of Welsh speakers in skilled jobs.

We acknowledge that this is a barrier to increasing local participation, and that it also emphasises the historical failure of local people to exploit the economic opportunities available within the sector.





Gan mai dim ond 21% o hyfforddwyr gweithgareddau awyr agored yng Nghymru sydd wedi cael eu haddysgu yng Nghymru ac yn gallu siarad Cymraeg, mae'r Bartneriaeth yn cydnabod bod hwn o bosibl yn un o'r rhwystrau sydd ar hyn o bryd yn atal siaradwyr Cymraeg rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored.

As only 21% of outdoor activity Instructors in Wales have been educated in Wales and can speak Welsh, the Partnership acknowledges that this is potentially one of the barriers that are currently stopping Welsh speakers from participating in the outdoors.

Er mwyn cwrdd ag anghenion siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau ledled Cymru, mae'r Bartneriaeth yn dymuno:

- Datblygu cyfleoedd Cymraeg mewn gweithgareddau awyr agored i gefnogi datblygiad diwylliannol y sector ac i hyrwyddo cyfle cyfartal i siaradwyr Cymraeg.
- Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored yn parhau i gynyddu cyfleoedd cyfranogi trwy gyfrwng Cymraeg, megis sefydlu mwy o gyrsiau mentora a chysiau'r CLIC yn y Gymraeg;
- Cynyddu nifer y gwirfoddolwyr gweithredol sy'n siarad Cymraeg yn y maes awyr agored
- Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a gyflogir yn y sector awyr agored yng Nghymru.

Yn ystod y cyfnod 2003-2018, trwy waith y Bartneriaeth, cynyddodd nifer yr hyfforddwyr Cymraeg eu hiaith yng Ngogledd Cymru o 4% i 21% (Ymchwil Prifysgol Bangor 2003, 2013; Muskett, 2018).

To meet the needs of Welsh speakers in communities across Wales, the Partnership wishes to:

- Develop Welsh language opportunities in outdoor activities to support cultural development of the sector and to promote equal opportunities for Welsh speakers.
- Continue to increase participation opportunities through the medium of Welsh, such as establish more mentoring and NGB courses in Welsh;
- Increase the numbers of Welsh speaking volunteers active in the outdoors;
- Increase the numbers of Welsh speakers employed within the outdoor sector in Wales.

During the period 2003-2018, through the work of the Partnership, the number of Welsh speaking full-time equivalent instructors in North Wales increased from 4% to 21% (Bangor University Research 2003, 2013; Muskett, 2028).



1 CYFLWYNIAD

Cefndir y Bartneriaeth Awyr Agored

Sefydlwyd y Bartneriaeth Awyr Agored yn 2005 er mwyn hyrwyddo gweledigaeth o Gymru fywiog, iach a chynhwysol, gyda lle amlwg i weithgareddau hamdden awyr agored. Mae gweithgareddau o'r fath yn fodd i bobl gael hwyl, i gymryd rhan a chyfrannu, ac i ddatblygu eu cyrhaeddiad. Maen nhw hefyd yn ffynhonnell gwaith, yn fodd i uno cymunedau lleol ac yn ffordd i hybu dealltwriaeth a defnydd cynaliadwy o'n hamgylchedd.

Ein Nod

Ein prif nod yw mynediad teg i weithgareddau awyr agored i bawb.

Ein Gweledigaeth

Ein gweledigaeth yw gwella bywydau pobl drwy weithgareddau awyr agored. Rydym yn cyflawni hyn drwy drawsnewid gweithgareddau awyr agored o fod yn ddarpariaeth hamdden yn unig i fod yn offeryn cydnabyddedig ar gyfer gwella iechyd, lles, cyflogadwyedd a gwydnwch cymunedol. Rydym yn gwneud hyn drwy ddylanwadu ar bolisi, creu seilwaith cymunedol cynaliadwy, newid arferion partneriaid, creu tystiolaeth ar gyfer buddsoddi, ac ehangu cwrddas dulliau sydd wedi profi eu gwerth ar draws pob un o bedair gwlad y DU.

Ein Cenhadaeth

Ein prif genhadaeth yw gwella cyfleoedd i bobl leol wireddu eu potensial trwy weithgareddau awyr agored.

1 INTRODUCTION

Background

The Outdoor Partnership was established in 2005 to promote a vision of an active, healthy and inclusive Wales in which outdoor activities have a prominent place. These activities provide a common platform for participation and contribution, enjoyment and achievement. They also provide a source of jobs, help bind local communities, and are a way of promoting the understanding and sustainable use of our environment.

Our Aim

Our overarching aim is equitable access to outdoor activities for everyone.

Our Vision

Our vision is to enhance people's lives through outdoor activities. We achieve this by transforming outdoor activity from a recreational offer into a recognised tool for improving health, wellbeing, employability and community resilience. We do this by influencing policy, building sustainable community infrastructure, changing partner practice, creating evidence for investment, and scaling proven approaches across all four UK nations.

Our Mission

Our core mission is to improve opportunities for local people to achieve their potential through outdoor activities.

Datganiad

Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored wedi mabwysiadu'r egwyddor wrth gynnal gweithgareddau yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal fel y bo'n addas o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol.

Mae swm sylweddol o gyllid Y Bartneriaeth Awyr Agored yn deillio o arian cyhoeddus. Teimlwn felly bod dyletswydd arnom i ddarparu'n ddwyieithog i'r cyhoedd yn unol â chanllawiau ein cyllidwyr.

Yn bwysicach na hyn mae'r Bartneriaeth Awyr Agored yn credu bod cynnig gwasanaethau i'r cyhoedd yn unol â dewis iaith yr unigolyn yn fater o arfer da.

Er nad oes gofyniad statudol ar Y Bartneriaeth Awyr Agored dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 i baratoi Cynllun Iaith Gymraeg, rydym yn teimlo'n gryf y dylid darparu gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd er mwyn parchu'r egwyddorion canlynol:

- y gall aelodau o'r cyhoedd fynegi barn a dweud beth yw eu hanghenion yn well yn eu dewis iaith
- pwysigrwydd darparu gwasanaethau yn unol â dewis iaith defnyddwyr gwasanaeth
- mae ymdrin â defnyddwyr gwasanaeth yn eu dewis iaith yn agwedd hanfodol o hyrwyddo cyfranogiad

Mae'r Cynllun hwn yn amlinellu sut bydd Y Bartneriaeth Awyr Agored yn gwneud hynny wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Bydd Y Bartneriaeth Awyr Agored yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg trwy ei weithgareddau a'i wasanaethau. Ceisiwn ddatblygu gwasanaethau gyda'r unigolyn wrth eu craidd, lle bydd yr unigolyn hwnnw yn teimlo'n gyfforddus yn defnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg ar bob adeg.

Declaration

The Outdoor Partnership has adopted the principle that while running activities in Wales it treats the Welsh and English languages on an equal basis where appropriate given the circumstances, and where reasonably practical.

A large proportion of The Outdoor Partnership's budget derives from public funds. We therefore feel duty bound to provide our services to the public bilingually, in accordance with funding guidelines.

More important is The Outdoor Partnership's belief that offering services to the public in their language of choice is a matter of good practice.

Even though there is no statutory requirement under the 1993 Welsh Language Act for The Outdoor Partnership to prepare a Welsh Language Scheme, we feel strongly that we should provide services to the public bilingually out of respect for the following principles:

- members of the public can state their opinions and express their needs better in their language of choice
- providing services in accordance with the service user's language of choice is important
- providing service users with their language of choice is an intrinsic aspect of promoting participation

This scheme underlines how The Outdoor Partnership will achieve this when providing services to the public in Wales.

The Outdoor Partnership will promote the Welsh language in its activities and services.

The services we develop will be centred on the individual, and in such a way that the individual will feel comfortable at all times using Welsh or English

3. Cynllunio a darparu gwasanaethau

3.1 Polisiâu a mentrau newydd

Wrth gynllunio polisiâu neu fentrau newydd a diwygiedig, bydd Y Bartneriaeth Awyr Agored yn asesu'r goblygiadau ieithyddol er mwyn cadw at amodau'r Cynllun hwn. Byddwn yn defnyddio polisiâu a mentrau newydd er mwyn hwyluso defnyddio'r Gymraeg ble bynnag y bo'n bosibl a symud y sefydliad yn agosach at weithredu'r egwyddor o gydraddoldeb ar bob cyfle.

Bydd staff sy'n llunio a gweithredu polisiâu a mentrau newydd yn ymwybodol o'r Cynllun Iaith Gymraeg hwn yn ogystal â gofynion cytundebol a osodir ar y sefydliad trwy gytundebau â chyrff eraill a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Bydd Gweithgor Iaith Gymraeg Y Bartneriaeth Awyr Agored, o dan arweinyddiaeth y Prif Weithredwr, yn monitro gweithrediad y Cynllun.

Ni chaiff y Cynllun Iaith hwn ei newid heb ymgynghoriad â Chomisiynydd y Gymraeg.

3. Planning and providing services

3.1 Policies and new initiatives

In order to conform to the terms of this Scheme The Outdoor Partnership will assess the linguistic implications of every new or revised policy and initiative. We will use new policies and initiatives in such a way as to facilitate the use of Welsh wherever possible and move the organisation closer to a position where linguistic equality exists at all times.

Staff creating and implementing new policies and initiatives are to be aware of this Welsh Language Scheme, a requirement that is in addition to the contractual requirements placed on the organisation by contracts with other bodies and by the 1993 Welsh Language Act.

The scheme's operation will be monitored by The Partnership's Welsh Language Working Group under the leadership of the CEO.

This Language Scheme will not be modified without consultation with the Welsh Language Commissioner





3.2 Darparu gwasanaethau

Nod Y Bartneriaeth Awyr Agored yw darparu gwasanaeth cyson a dibynadwy ar gyfer siaradwyr Cymraeg a Saesneg. Fel y nodir yn yr amserlen byddwn yn gweithio tuag at ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr i'r un safon uchel yn Gymraeg a Saesneg trwy:

- Sicrhau bod pob aelod o staff/gwirfoddolwr yng Nghymru yn gwybod sut i gyfeirio unigolion at wasanaethau Cymraeg.
- Sicrhau bod defnyddwyr yn gwybod pa staff/gwirfoddolwr sy'n siarad Cymraeg trwy ddefnyddio bathodynau a phosteri 'Iaith Gwaith'.
- Ddarparu hyfforddiant ac arweiniad ar gyfer staff/gwirfoddolwyr i hwyluso'r broses o weithredu'r Cynllun. Mae pecynnau hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith hefyd ar gael am ddim arlein gan Lywodraeth Cymru.
- Hyrwyddo gweithleoedd dwyieithog yn ein swyddfeydd. Mae adnoddau ar gael gan Gomisiynydd y Gymraeg i gynorthwyo â hyn.
- Dod o hyd i wasanaethau cyfieithu safonol a dibynadwy i sicrhau bod yr holl ddeunydd perthnasol yn cael ei gyfieithu'n gyflym ac mewn ffordd ddibynadwy.
- Sicrhau bod pob dogfen gyhoeddus yn ddwyieithog neu ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Am fwy o wybodaeth am ein rhaglenni, ewch i:
<https://partneriaeth-awyr-agored.co.uk/our-projects>

Planning and Providing Services

3.2 Providing Services

The Outdoor Partnership's objective is to provide a consistent and dependable service for Welsh and English speakers. As noted in the timetable, we will be working towards providing a comprehensive service in both Welsh and English by:

- Ensuring that every member of staff or volunteer in Wales knows how to refer individuals to Welsh services.
- Using badges and displaying 'Iaith Gwaith' posters to ensure that each user knows which members of staff or volunteers speak Welsh.
- Providing training and guidance for staff and volunteers to facilitate the implementation of the Scheme. (Training packs and online language awareness are also available free of charge from the Welsh Government)
- Promoting the bilingual workplace. (Resources to help with this are available from the Welsh Language Commissioner).
- Securing a translating service that is reliable and produces work of a high standard so that all relevant material is translated quickly and well.
- Ensure all public facing information and documents are either bilingual or available in both English and Welsh.

For more information on our programmes in Wales, please visit: <https://outdoorpartnership.co.uk/our-projects>





4. Cyfathrebu â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

4. Communicating with members of the public that speak Welsh

4.1 Cyfathrebu ysgrifenedig

- Bydd croeso i gwsmeriaid anfon gohebiaeth Gymraeg at y Bartneriaeth Awyr Agored a bydd y rhai hynny fydd yn ysgrifennu yn Gymraeg yn derbyn ateb yn Gymraeg.
- Ni fydd gohebu drwy gyfrwng y Gymraeg ynddo'i hun yn arwain at oedi.
- Bydd ebyst a dderbynnir yn Gymraeg yn cael eu hateb yn Gymraeg.
- Yn dilyn cysylltiad Cymraeg wyneb yn wyneb neu dros y ffôn, anfonir unrhyw ohebiaeth wedi hynny yn Gymraeg neu yn ddwyieithog.
- Os bydd yn hysbys fod yn well gan gwsmer dderbyn gohebiaeth Gymraeg, byddwn yn gohebu â'r person hwnnw yn y Gymraeg.
- Er mwyn hwyluso cyfathrebu â chwsmeriaid yn Gymraeg, bydd y Bartneriaeth Awyr Agored yn cadw rhestr o gyfieithwyr a fydd ar gael i aelodau'r staff.
- Lle nad yw dewis unigol yn hysbys, er enghraifft wrth anfon ebyst safonol, byddwn yn cyfathrebu'n ysgrifenedig â'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog.

4.1 Written communication

- Customers are welcome to send correspondence to the Outdoor Partnership in Welsh, and those that do so will receive a reply in Welsh.
- Corresponding through the medium of Welsh will not be subject to delay as a result of being in Welsh.
- Emails received in Welsh will be answered in Welsh.
- Following telephone or face to face contact in Welsh, all subsequent correspondence will be in Welsh or bilingual.
- If we are made aware of a customer's preference for correspondence in Welsh we will correspond with them in Welsh.
- In order to facilitate communication with customers in Welsh, The Outdoor Partnership will keep a list of translators whose services are available to the staff.
- If we are not aware of the customer's language of choice, for example when sending standard emails, our written communication with the public in Wales will be bilingual.



4. Cyfathrebu â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

4. Communicating with members of the public that speak Welsh

4.2 Cysylltu ar y ffôn

Bydd croeso i gwsmeriaid gynnal sgwrs ffôn â ni yn Gymraeg neu Saesneg.

Bydd canllawiau yn cael eu cyflwyno i'r staff yng Nghymru ar y camau i'w dilyn wrth ateb y ffôn. Bydd pob galwad allanol yn cael ei derbyn gyda chyfarchiad dwyieithog safonol, sef:

'Bore da. Y Bartneriaeth Awyr Agored. Good morning. The Outdoor Partnership' neu 'Prynhawn da. Y Bartneriaeth Awyr Agored. Good afternoon. The Outdoor Partnership.'

Os yw aelod o staff yn methu â chyflwyno gwasanaeth dwyieithog, byddent yn egluro'r sefyllfa i'r unigolyn ac yn cynnig gwasanaeth Cymraeg gan aelod arall o staff. Os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael caiff y galwr ddewis aros i siaradwr Cymraeg ei ffonio'n ôl; cyflwyno'r cais yn ysgrifenedig; neu barhau â'r sgwrs yn Saesneg.

Yn dilyn sgwrs ffôn bydd pob gohebiaeth ddilynol, naill ai yn ysgrifenedig neu ar lafar, yn newis iaith y galwr neu yn ddwyieithog.

4.2 Contact by telephone


Customers are welcome to converse with us on the phone in Welsh or English.

Guidelines for answering the phone will be provided for staff in Wales. Every external call will be answered with a standard bilingual greeting, namely:

'Bore da. Y Bartneriaeth Awyr Agored. Good morning. The Outdoor Partnership' or 'Prynhawn da. Y Bartneriaeth Awyr Agored. Good afternoon. The Outdoor Partnership.'

If a member of staff is unable to provide a service in both languages, they will explain this to the individual and offer the services of a Welsh speaking member of staff. If there is no Welsh speaker available, the caller will then be given the option to wait for a Welsh speaker to return their call, to submit the enquiry in written form, or to continue the conversation in English.

When a telephone conversation has been conducted, every correspondence from then on, written or oral, will be in the language of choice of the caller or bilingual.





4. Cyfathrebu â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

4.3 Cysylltu wyneb yn wyneb

Swyddfa'r Bartneriaeth Awyr Agored

Bydd croeso i bobl sy'n ymweld â swyddfeydd Y Bartneriaeth Awyr Agored drafod eu materion yn y Gymraeg os ydynt am wneud hynny.

Bydd y Bartneriaeth Awyr Agored yn gwneud pob ymdrech i sicrhau y bydd siaradwr Cymraeg yn bresennol mewn swyddfeydd i ddelio ag ymholiadau Cymraeg. Os na fydd yr aelod o staff yn gallu delio â mater yn llawn, yna fe wneir pob ymdrech i gael hyd i berson addas, un ai yn yr un swyddfa neu dros y ffôn.

Os na fydd modd gwneud hynny, rhoddir cyfle i'r cwsmer drafod y mater yn Saesneg neu fe nodir yr ymholiad a'i drosglwyddo i aelod addas o staff er mwyn anfon ymateb Cymraeg at y cwsmer.

Gwasanaethau cyffredinol

Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored wedi ymrwymo i sicrhau bod y bobl hynny sy'n dymuno cael cyswllt wyneb yn wyneb ag aelod staff/gwirfoddolwr Cymraeg ei iaith yn gallu gwneud hynny.

Efallai na fydd hyn yn bosibl ar bob adeg, ond byddwn yn annog a hyfforddi staff/gwirfoddolwyr sydd yn medru'r Gymraeg i wneud y gorau o'u sgiliau er mwyn cynnig y gwasanaeth mwyaf cyflawn posib.

4. Communicating with members of the public that speak Welsh

4.3 Face to face contact

The Outdoor Partnership Office

Visitors to the Partnership's offices are welcome to discuss their business in Welsh if it is their desire to do so.

The Outdoor Partnership will make every effort to ensure that Welsh speakers are present in the offices to deal with enquiries in Welsh. If the staff member present is unable to deal fully with the matter at hand, then every effort will be made to find someone who can, either in the office or by telephone.

If this is not possible, the customer will be offered the opportunity to discuss the matter in English, or the enquiry will be noted and transferred to an appropriate member of staff who will respond in Welsh, to the customer.

General services

The Outdoor Partnership has committed itself to ensuring that those who wish to have face to face contact with a member of staff or volunteer who is Welsh speaking are able to do so.

This might not be possible on every occasion, but we will encourage and train Welsh speaking staff and volunteers to make the most of their skills in order that we may offer the most comprehensive service possible.



4. Cyfathrebu â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

4.4 Cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus yn enw'r Bartneriaeth Awyr Agored

Bydd Y Bartneriaeth Awyr Agored yn rhoi gweithdrefnau ffurfiol ar waith i sicrhau bod modd cynnal cyfarfodydd ffurfiol yn Gymraeg, yn Saesneg neu yn ddwyieithog yn unol ag anghenion y rhai sy'n mynychu'r cyfarfodydd hyn.

Bydd hysbysiadau pob cyfarfod o'r Bartneriaeth neu gyfarfodydd cyhoeddus, digwyddiad neu gynhadledd yn ddwyieithog, a byddant yn cynnwys y datganiad y perchir hawl y rhai sy'n mynychu'r cyfarfod i siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Caiff anghenion cyfieithu eu hasesu cyn cynnal unrhyw gyfarfod cyhoeddus neu gynhadledd. Darperir cyfleusterau cyfieithu priodol ar sail yr asesiad.

Os ystyrir, ar sail yr asesiad, nad oes angen cyfleusterau cyfieithu neu na fyddant yn ymarferol bosibl, caiff hyn ei wneud yn glir ymlaen llaw.

Gwneir yr asesiad ar sail pwrpas neu destun y cyfarfod, ei leoliad, y rhai sy'n debygol o'i fynychu ac unrhyw wybodaeth ymlaen llaw ynghylch y dewis iaith.

Gwneir asesiad yn yr un modd ar yr angen i gael aelodau staff sy'n siarad Cymraeg i dderbyn a chroesawu'r cyhoedd mewn cyfarfodydd.

4. Communicating with members of the public that speak Welsh

4.4 Meetings and public events in the name of The Outdoor Partnership

The Outdoor Partnership will establish formal procedures to ensure formal meetings can be conducted in Welsh, or English or bilingually according to the requirements of those attending these meetings

All notification regarding meetings of The Outdoor Partnership, public meetings, events or conferences will be bilingual, and will include a declaration that those attending the meeting will have the right to speak Welsh or English.

Translation requirements will be assessed prior to all public meetings or conferences. The appropriate translation facilities will be provided on the basis of this assessment.

If it is considered, as a result of the assessment, that there is no need for translating facilities, or that it is not practically possible to provide them, this will be made clear to everyone beforehand.

The assessment will be based on the purpose of the meeting or its subject, its location, those likely to attend, and any information gathered beforehand regarding the language of choice.

A similar assessment will be made of the need to have Welsh speaking staff present to receive and welcome members of the public to the meeting.

5. Delwedd gorfforaethol

5.1 Hunaniaeth gorfforaethol

Bydd Y Bartneriaeth Awyr Agored yn mabwysiadu delwedd gorfforaethol gwbl ddwyieithog. Bydd deunyddiau ysgrifenedig, logos a sloganau a gyhoeddir yng Nghymru yn ddwyieithog. Bydd papur pennawd, slipiau cyfarch a chardiau apwyntiad i gyd yn ddwyieithog gyda'r ddwy iaith yn gyfartal o ran fformat, maint, eglurder ac amlygrwydd.

Bydd pob hysbysiad cyffredinol a chyhoeddus a hysbyseb swydd a ddsberthir i'r cyfryngau yng Nghymru yn ddwyieithog. Bydd deunydd arddangos a gwybodaeth a ddefnyddir mewn arddangosfeydd a digwyddiadau yng Nghymru yn ddwyieithog.

5.2 Arwyddion

Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored wedi ymrwymo i ddarparu arwyddion gwybodaeth yn ddwyieithog gan gynnwys o fewn ei swyddfeydd. Bydd yr arwyddion yn parchu'r egwyddor o gydraddoldeb, gyda'r Gymraeg yn ymddangos uwchben y Saesneg. Bydd arwyddion newydd yn y dyfodol yn hollol ddwyieithog gyda'r ddwy iaith yn gyfartal ac yr un mor amlwg.



5. Corporate Image

5.1 Corporate identity

The Outdoor Partnership will adopt a corporate image that is thoroughly and fully bilingual. Written material, logos and slogans that are published in Wales will be bilingual. Headed paper, compliment slips and appointment cards will all be bilingual, with both languages equal with regards to format, size, distinctness and prominence.

Every general and public notification and job advert distributed to the media in Wales will be bilingual. Exhibition materials and information used in exhibitions and events in Wales will be bilingual.

5.2 Signs

The Outdoor Partnership has made a commitment to provide information signs that are bilingual, including those within its offices. These signs will respect the principle of equality and the Welsh element will be displayed above the English element. New signs in the future will be completely bilingual, with both languages treated equally and equally prominent.



6. Cyhoeddiadau

6.1 Dogfennau

Wrth argraffu a chyhoeddi deunydd ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru, bydd Y Bartneriaeth Awyr Agored yn dilyn y drefn arferol o wneud hynny'n ddwyieithog. Bydd dogfennau dwyieithog yn cynnwys rhai a ddosberthir neu a ddarperir ar gyfer y cyhoedd yn gyffredinol, ac yn:

- Darparu gwybodaeth am wasanaethau'r Bartneriaeth Awyr Agored
- Esbonio a chynghori ar bolisiau, mentrau, datblygiadau a gwasanaethau newydd y Bartneriaeth Awyr Agored
- Holi barn y cyhoedd wrth ymgynghori.

Bydd cyhoeddiadau dwyieithog yn cynnwys pamffledi, llyfrynau, cylchlythyron, cyhoeddiadau corfforaethol a deunydd cyhoeddiedig cyffredinol a ddosberthir i gwsmeriaid yng Nghymru gan Y Bartneriaeth Awyr Agored neu ar ei ran.

Bydd cwsmeriaid yn gallu dewis derbyn gwybodaeth yn Gymraeg neu Saesneg. Byddwn yn sicrhau bod y testun Cymraeg o ansawdd uchel ac yn y cywair priodol gan roi sylw i'r gynulleidfa darged.

Os na fydd yn bosibl neu'n addas cynhyrchu deunyddiau dwyieithog, fe gynhyrchir fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Bryd hynny, bydd y ddau fersiwn o'r un safon ac yn cael eu cyhoeddi a'u dosbarthu ar yr un pryd, ac yn cynnwys neges bod fersiwn Cymraeg/Saesneg ar gael.

6. Publications

6.1 Documents

When printing and publishing material for the public in Wales, The Outdoor Partnership will follow the usual procedure and do so bilingually. Bilingual documents will include those distributed or provided for the general public, and will:

- Provide information about The Outdoor Partnership's various services.
- Explain and advise on The Outdoor Partnership's new policies, initiatives, developments and services.
- Consult with the public so as to ascertain its views.

Materials to be published bilingually include all The Outdoor Partnership's pamphlets, booklets, newsletters, corporate announcements and general published material distributed in Wales, by The Outdoor Partnership or on its behalf.

Customers will be able to choose to receive their information in Welsh or English. We will ensure that the Welsh text is of a high standard and that its tone is appropriate to the target audience.

If it is not possible or appropriate to produce materials bilingually, separate Welsh and English versions will be produced.

On such occasions both versions will be of the same standard, will be published and distributed at the same time, and will include a note stating that both Welsh and English versions are available.





7. Datganiadau i'r wasg

Rydym wedi ymrwymo i gyhoeddi datganiadau a hysbysiadau dwyieithog i'r wasg a'r cyfryngau yng Nghymru.

- Bydd datganiadau i'r wasg yn ddwyieithog yng Nghymru a chant eu cyhoeddi yn y ddwy iaith ar yr un adeg. Os na fydd hyn yn bosib e.e. os oes argyfwng neu os nad oes modd cyfieithu ar unwaith byddwn yn gwerthuso natur y datganiadau yng ngoleuni hyn. (er mwyn osgoi amgylchiadau tebyg yn y dyfodol)
- Ym mhob datganiad i'r wasg, rhoddir manylion cyswllt cynrychiolydd Y Bartneriaeth Awyr Agored sy'n siarad Cymraeg.
- Bydd yr angen i gyfieithu datganiadau i'r wasg yn cael ei ymgorffori i'r amserlen yn ystod y broses gynllunio

7. Press Releases

The Outdoor Partnership is committed to giving press statements and publishing advertisements in the press and media in Wales in both languages.

- Press releases for the media in Wales will be bilingual and issued at the same time. If this is not possible i.e. in an emergency situation or where translation is not immediately available the nature of the release will be subject to retrospective review. (in order to avoid future circumstances)
- In every press release, contact details of a Welsh speaking representative for The Outdoor Partnership will be given.
- The need for translation of press releases will be incorporated into the timetable during planning





8. Gwefannau a Chyfryngau Cymdeithasol

8.1 Gwefan

Mae gwefan y Bartneriaeth Awyr Agored yn gwbl ddwyieithog a bydd gan bob tudalen Saesneg dudalen cyfatebol unfath yn Gymraeg.

Mae'r ddwy iaith yn cael eu harddangos ar wahân, ac mae modd i'r defnyddiwr drosglwyddo o un iaith i'r llall ar unrhyw adeg trwy ddefnyddio'r botwm iaith amlwg. Bydd y deunydd a gyhoeddir ar wefan y Bartneriaeth Awyr Agored yn ymddangos yn Gymraeg a Saesneg ac fe'i gosodir ar yr un adeg pryd bynnag y bo'n bosibl.

Wrth gynllunio neu ailddatblygu gwefannau neu unrhyw wasanaeth technoleg gwybodaeth arall, byddwn yn rhoi ystyriaeth i ganllawiau Comisiynydd y Gymraeg: 'technoleg, gwefannau a meddalwedd: ystyried y Gymraeg'.

Er mwyn cynorthwyo staff a gwirfoddolwyr i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg bydd meddalwedd TG megis geiriadur a gwirdd sillafu Cysgliad ar gael ar gyfrifiaduron. Bydd fersiynau Cymraeg Microsoft Windows ac Office hefyd ar gael i staff a gwirfoddolwyr (gellir lawr lwytho am ddim o wefan y Comisiynydd).

8.2 Cyfryngau Cymdeithasol

Bydd diweddariadau a hysbysiadau am ddigwyddiadau ar ein prif gyfrif yn ddwyieithog yng Nghymru gyda'r Gymraeg yn gyntaf. Bydd ymatebion i gyfranwyr i'r safleoedd yn newis iaith y cyfranwr neu'n ddwyieithog gan osod dewis iaith y cyfranwr yn gyntaf.

8. Website and Social Media

8.1 Website

The Outdoor Partnership's website is fully bilingual, and every page in English will have an exact equivalent in Welsh. Both languages are displayed separately, and the user is able to transfer from one language to another at any time by clicking the clearly marked and displayed language button. All materials published on The Outdoor Partnership's website will be displayed in Welsh and English and, whenever possible, published at the same time.

When planning or redeveloping websites or any other IT service, we will consult and consider the Welsh Commissioner's guidelines: 'Considering the Welsh language in technology, websites and software'.

In order to assist staff and volunteers working through the medium of Welsh, IT software such as the Cysgliad dictionary and spell checker will be provided on their computers. Welsh versions of Microsoft Windows and Office will also be available to staff and volunteers (these can be downloaded free of charge from the Commissioner's website).

8.2 Social Media

All updates and notifications on events in Wales on our main social media pages will be bilingual, with the Welsh being first. The responses to the contributors of the sites will be in their chosen language or bilingual with their chosen language first.





9. Gweithredu'r Cynllun

9.1 Staffio

Bydd Y Bartneriaeth Awyr Agored yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod staff a gwirfoddolwyr sy'n gallu darparu gwasanaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg ym mhob swyddfa a phob prosiect sydd â chyswllt â'r cyhoedd.

Darperir rhestr flynyddol o aelodau staff sy'n darparu gwasanaeth i'r cyhoedd ac sy'n gallu siarad ac ysgrifennu Cymraeg ar y wefan drwy ddangos bathodyn oren 'Cymraeg'.

Mae rhyw lefel o allu yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer pob swydd yng Nghymru. Pan fydd swydd yn wag byddwn yn defnyddio Canllaw Recriwtio Comisiynydd y Gymraeg i sgorio pa lefelau o ruglder yn y Gymraeg sy'n hanfodol ar gyfer cyflawni'r swydd.

Bydd disgrifiad o'r union ofynion ieithyddol wedi ei gynnwys yn y disgrifiad a'r hysbyseb swydd.

Fel rhan o'r cyfweiliad bydd allu'r ymgeisydd i gyrraedd y lefel priodol o allu yn y Gymraeg yn cael ei brofi. Bydd hysbysebion recriwtio ar gyfer swyddi sydd â rhuglder yn y Gymraeg o lefelau 3 neu'n uwch yn y Gymraeg, gan gynnwys eglurhad byr yn y Saesneg neu'n ddwyieithog.

Bydd hyfforddiant a chefnogaeth ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn cael eu darparu i staff a gwirfoddolwyr sydd am ehangu eu defnydd o'r iaith lle mae hynny'n briodol i broffil eu rôl neu'n rhan o'u cynllun datblygu personol.

9. Implementing The Scheme

9.1 Staffing

The Outdoor Partnership will make every effort to ensure that staff and volunteers who are able to provide a service for Welsh speakers will be available in every office and on every project where there is contact with the public.

An annual list of staff members who provide services to the public and are able to write and speak Welsh will be acknowledged on our website and will wear the orange 'Cymraeg' badge.

A certain level of Welsh skills is required for each position in Wales. When a vacancy occurs we will assess which level of fluency is needed for that position using the Welsh Language Commissioner's Recruitment Advice Document to score which level of fluency is needed.

A description of the specific linguistic requirements will be included in the job description and advertisement.

As part of the interview the ability of the candidate to reach the required level of Welsh language ability will be assessed. Recruitment advertisements for a posts which require fluency in Welsh at levels 3 or above will be in Welsh with a brief explanation in English, or bilingually.

Training and support in the use of the Welsh language will be provided to staff and volunteers who wish to expand their use of the language, where this is relevant to their role profile or part of their personal development plan.





9. Gweithredu'r Cynllun

9.1 Staffio

Darperir cefnogaeth a hyfforddiant i'r staff yng Nghymru o ran defnyddio'r Gymraeg er mwyn iddynt ennill sgiliau a gwella eu sgiliau presennol. Bydd dyrannu adnoddau'r Bartneriaeth Awyr Agored (h.y. ariannu uniongyrchol ac amser yn ystod oriau gwaith) yn ddibynnol ar asesiad o anghenion hyfforddi a blaenoriaethau parthed lles o ran darpariaeth gwasanaethau. Sefydlir dulliau gweithredu ar gyfer monitro'r gwasanaeth, nodir diffygion a phenderfynu beth ddylid ei wneud.

Cynigir hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg i'r holl weithwyr, cyfarwyddwyr a gwirfoddolwyr (yn ddibynnol ar gyllid) Bydd cefnogaeth a hyfforddiant ar gael i wirfoddolwyr er mwyn iddynt fagu sgiliau newydd a gwella'u sgiliau cyfredol (yn ddibynnol ar gyllid ar gael i'r Bartneriaeth Awyr Agored)

9.2 Dysgu Cymraeg

Bydd Y Bartneriaeth Awyr Agored yn cymell a chefnogi staff fydd am ddysgu neu wella'u Cymraeg ac yn annog siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith ar bob achlysur ymarferol.

Byddwn yn cynnal asesiad anghenion hyfforddi o'r gweithwyr er mwyn nodi pa aelodau staff a allai elwa o raglenni hyfforddi, cefnogaeth ariannol neu wrth neilltuo amser gwaith er mwyn:

- Helpu gweithwyr sy'n siarad Cymraeg sydd angen datblygu eu sgiliau iaith er cyflawni eu dyletswyddau.
- Darparu aelodau staff Cymraeg gyda'r sgiliau gweinyddol, technegol neu weithredol addas i ddarparu gwasanaeth Cymraeg ar gyfer cwsmeriaid.
- Darparu gwybodaeth benodol am agweddau o'r gwasanaethau.

9. Implementing the scheme

9.1 Staffing

Support and training will be provided to staff in Wales in order for them to gain new skills and improve those they currently possess. Allocation of The Outdoor Partnership resources (i.e. direct funding and time allowed during work hours) will be dependent on a training needs assessment and The Outdoor Partnership's priorities as regards benefit to the service provided. A procedure will be established for monitoring the service, for noting weaknesses and deciding what action should be taken.


Welsh language awareness training will be offered to all staff, directors and volunteers (dependant on funding). Support and training will be provided to volunteers in order for them to gain new skills and improve those they currently possess (dependant on funding available to The Outdoor Partnership).

9.2 Learning Welsh

The Outdoor Partnership will support and motivate staff who wish to learn or improve their ability to speak and use Welsh, and will encourage Welsh speakers to use the language wherever practical.

We will conduct a training needs assessment of the workers in order to identify staff who could benefit from training programmes, financial support or from time during work hours that would:

- Help those Welsh speaking workers needing to develop their language skills in order to fulfil their duties.
- Provide Welsh speaking staff with the administrative, technical or operational skills necessary to provide a service in Welsh for customers.
- Provide specific information on aspects of the service.



10. Gweithredu A Monitro

10.1 Monitro

Bydd Y Bartneriaeth Awyr Agored yn mesur gweithrediad y Cynllun drwy'r Gweithgor Iaith Gymraeg a fydd yn monitro a chyflawni cynllun gweithredu Cynnig Cymraeg Y Bartneriaeth Awyr Agored.

Bydd adroddiad blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Rheoli am adborth. Cynhwysir adran ar gydymffurfio â'r Cynllun hwn yn yr adroddiad blynyddol.

Bydd y Bartneriaeth Awyr Agored yn adolygu ac yn diwygio'r Cynllun bob tair blynedd mewn ymgynghoriad â Chomisiynydd y Gymraeg.

10.2 Cwynion ac adborth

Delir ag unrhyw gwynion a dderbynnir gan y Bartneriaeth Awyr Agored yn unol â'r gweithdrefnau a pholisïau cwynion presennol.

Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored yn croesawu awgrymiadau gan y cyhoedd, ei staff a'i aelodau ar gyfer gwella ei Gynllun a'i wasanaeth Cymraeg. Dylid cyfeirio unrhyw awgrymiadau at y Prif Weithredwr a byddant yn cael eu hystyried yn ystod y cyfnod monitro.

10. Operating And Monitoring

10.1 Monitoring

The Outdoor Partnership will measure how well the Scheme is operating through the Welsh Language Working Group who will monitor and implement The Outdoor Partnership's Cynnig Cymraeg Action Plan.

A report will be submitted annually to the Management Team for feedback. A section on compliance with the Language Scheme will be included in the annual report.

The Outdoor Partnership will review and revise the Scheme every three years in consultation with the Welsh Commissioner.

10.2 Complaints and feedback

Any complaints received by The Outdoor Partnership will be dealt with according to the current complaints policy and procedure.

The Outdoor Partnership welcomes suggestions for improvements to its Welsh Language Scheme and service from the public, its staff and its members. Any suggestions should be addressed to the CEO, and will be considered during the monitoring period.



11. Hysbysebu'r Cynllun a Chodi Ymwybyddiaeth y Cyhoedd

Bydd Y Bartneriaeth Awyr Agored yn hysbysebu ei Gynllun Iaith Gymraeg i'r cyhoedd, staff, aelodau ac asiantaethau'n barhaus. Byddwn yn sicrhau bod y bobl sy'n delio â'r Bartneriaeth Awyr Agored yn ymwybodol o'r Cynllun a'i gynnwys. Bydd copi o'r Cynllun ar gael ar ar ein gwefan: <https://partneriaeth-awyr-agored.co.uk/polisiau>

Defnyddir y dulliau cyhoeddusrwydd canlynol:

- Dosbarthu gwybodaeth a chanllawiau ymhlith staff.
- Sicrhau bod copïau o'r Cynllun ar gael i aelodau Bartneriaeth Awyr Agored a'r cyhoedd yn gyffredinol trwy ei osod ar ein gwefan a'i ddosbarthu ar gais.

11. Promoting the Scheme and Raising Public Awareness

The Outdoor Partnership will continually bring its Welsh Language Scheme to the notice of the public, its staff, its members and other agencies. We will ensure that the people dealing with The Outdoor Partnership are aware of the Scheme and its contents which is available on our website: <https://outdoorpartnership.co.uk/policies>

The following publicity methods are to be used:

- Distributing the information and guidelines to staff members.
- Ensuring that copies of the Scheme are available to members of the Outdoor Partnership and to the general public by placing it on our website and distributing it to everyone who requests a copy.



Y BARTNERIAETH AWYR AGORED

PROFIAD • MWYNHAU • LLWYDDO • GYDA'N GILYDD



EXPERIENCE • ENJOY • ACHIEVE • TOGETHER

THE OUTDOOR PARTNERSHIP